

# STORI WELEDOL

## THEATR Y GRAND ABERTAW



Dyma Theatr y Grand Abertawe, croeso!

Bydd y stori hon yn eich helpu i baratoi ar gyfer eich ymweliad.

## Ymweld â Theatr y Grand Abertawe

Wrth i chi gerdded i lawr Singleton Street, byddwch yn gweld ein hadeilad mawr, ger y maes parcio.




Byddwch yn cerdded trwy'r drws blaen ac i mewn i'r cyntedd.



O'ch blaen, byddwch yn gweld ein swyddfa docynnau a'n staff. Byddant yn rhoi eich tocynnau i chi ar gyfer y sioe. Gallant ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am y theatr.



Os oes angen i chi ddefnyddio'r toiledau, mae toiledau'r menywod a thoiled hygyrch yn y coridor ar ochr dde'r Swyddfa Docynnau. Gallwch ddod o hyd i ragor o doiledau a thoiledau dynion ar bob llawr o'r theatr.



Dyma'r toiled hygyrch.

Bydd seinydd yn dweud wrthy ch pan fydd y drws i'r theatr ar agor. Mae hyn yn golygu gallwch fynd i mewn os hoffech chi.



Dyma ein theatr. Gallwch chi a phobl eraill sydd â thocynnau i weld y sioe eistedd yn y seddi coch. Bydd eich tocyn yn dweud wrthy ch ym mha sedd y gallwch eistedd ynddi, ond gallwch ofyn i un o'n tywyswyr os oes angen cymorth arnoch.



Os oes angen sedd plentyn arnoch i weld y sioe, gallwch gasglu un o wal gefn yr awditoriwm.



Os ydych yn dod i berfformiad arferol, cyn i'r sioe ddechrau bydd y goleuadau mawr yn diffodd yn araf iawn a bydd yn tywyllu. Efallai bydd rhai pobl yn parhau i wneud ychydig o sŵn, ond does dim angen i chi boeni am hyn.


Yna bydd yr actorion yn dod ar y llwyfan a bydd y sioe yn dechrau.

Os ydych chi'n dod i berfformiad hamddenol, bydd y goleuadau mawr yn aros ymlaen trwy gydol y sioe a gallwch wneud sŵn a symud o gwmpas.

Os oes angen brêc arnoch i fynd i rywle tawel, mae ystafell ddianc ar gael i chi ei ddefnyddio ar unrhyw adeg ym Mar y Cylch.

Efallai bydd egwyl yng nghanol y sioe. Gelwir yr egwyl hon yn 'interval'.

Yn ystod yr egwyl, gallwch adael eich sedd i brynu bwyd a diod neu fynd i'r toiled.



Dyma far a bwyty The Malthouse ar y llawr gwaelod, maent yn gwerthu bwyd a diod.

Bydd cloch yn canu i nodi diwedd yr egwyl. Mae hyn yn golygu ei fod yn amser i chi ddychwelyd i'ch sedd i wyllo gweddill y sioe.

Ar y diwedd bydd pawb yn curo eu dwylo. Mae hyn yn rhoi gwybod i'r actorion bod pawb wedi mwynhau gwyllo'r sioe.



**Gobeithio y byddwch yn mwynhau eich ymweliad!**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cyn i chi ymweld,  
gallwch e-bostio [BlaenTyGrand.Abertawe@abertawe.gov.uk](mailto:BlaenTyGrand.Abertawe@abertawe.gov.uk)  
neu ffonio 01792 475715